Cyfraith Gymunedol y Gogledd
North Wales Community Law

Enw Cyfle:

Gwirfoddolwr y Dderbynfa a Gwasanaethau Brysbennu

Disgrifiad o'r Cyfle:

Ydych chi'n cael eich ysgogi gan gyfiawnder cymdeithasol? Oes gennych chi ddiddordeb mewn gyrfa yn y gyfraith, eiriolaeth neu waith cymunedol? Oes gennych chi ddawn o ran gwasanaeth i gwsmeriaid a rhoi sylw da i fanylion?

Lansiodd Cyfraith Gymunedol y Gogledd yn 2024 i helpu i sicrhau bod pawb yn cael cyfle teg i geisio cyfiawnder. Rydym yn defnyddio'r gyfraith fel adnodd i fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb, gan ddarparu cynrychiolaeth a chyngor cyfreithiol am ddim i bobl ag anawsterau tai nad ydynt yn gallu fforddio cyfreithiwr.

Gwirfoddolwyr y Dderbynfa a Gwasanaethau Brysbennu fydd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ein darpar gleientiaid. Byddwch yn defnyddio eich sgiliau gwrando a chyfathrebu i helpu pobl sydd mewn sefyllfaoedd llawn straen i gael gafael ar y cymorth a'r cyngor sydd arnynt eu hangen. Weithiau byddwch yn eu cyfeirio at wasanaethau eraill, ac weithiau byddwch yn eu hatgyfeirio at ein tîm Gwaith Achos. Bydd hyn yn golygu cymryd cofnod manwl o'u hachos, casglu tystiolaeth a llwytho manylion i fyny i'n system rheoli achosion er mwyn i'n Gweithwyr Achosion eu hasesu.

Mae hwn yn gyfle gwych i fyfyrwyr ac eraill sydd â diddordeb mewn gyrfa yn y gyfraith, eiriolaeth neu waith cymunedol gael profiad ymarferol, rheng flaen. Byddwch yn rhan o dîm o gydweithwyr angerddol a chefnogol ac yn cael eich arwain gan ein huwch gyfreithiwr i'ch helpu i ddatblygu sgiliau a fydd o fantais i chi ar gyfer rolau yn y dyfodol. Mae ein gwirfoddolwyr i gyd yn cael cyfarfodydd un-i-un rheolaidd, cynllun dysgu a datblygu ac maent yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd tîm. Byddwch yn cael hyfforddiant, ac yn cael eich annog i ddatblygu eich meysydd diddordeb ac arbenigedd eich hun yn y rôl.

Os ydych chi'n frwd dros gyfiawnder, cydraddoldeb a helpu pobl yn eich cymuned, dyma'r cyfle perffaith i chi!

Y Sgiliau sydd eu Hangen:

Rhestr ddymuniadau yw hon – ni fydd gan neb yr holl sgiliau hyn. Cysylltwch â ni os ydych chi'n teimlo bod gennych chi ddim ond un o'r sgiliau hyn, neu os ydych chi'n teimlo'n gyffrous iawn am fod yn rhan o'n gwaith.

- Sgiliau cyfathrebu ardderchog ar lafar ac ar bapur.

Cyfraith Gymunedol y Gogledd
North Wales Community Law

- Ymrwymiad cryf i herio anghydraddoldeb a hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol.

- Gwybodaeth dda am y sector cyfreithiol a'r sector cynghori yng Ngogledd Cymru, yn ogystal â'r asiantaethau a'r sefydliadau sydd ar gael i gefnogi pobl sy'n wynebu ansicrwydd tai, digartrefedd a thlodi, neu ddiddordeb ynddynt.
- Gallu dysgu'n gyflym, dilyn cyfarwyddiadau'n gywir a derbyn llawer iawn o wybodaeth gymhleth yn gyflym gan sicrhau sylw i fanylion.
- Sgiliau TG swyddfa, gan gynnwys defnyddio technoleg ddiweddar fel Outlook, Word, Excel a chronfeydd data.
- Gallu gweithio'n annibynnol ar eich liwt eich hun, yn ogystal â fel rhan o dîm bach, ymroddedig a gweithgar.

Gwybodaeth am Dreuliau:

Byddwn yn gwneud yn siŵr nad ydych chi byth ar eich colled wrth wirfoddoli gyda ni.